# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 27 Ionawr 2015**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion
(242)

### 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf.

Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

### 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 14.17

### 3 Datganiad gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus: Cyflwyno'r Bil Llywodraeth Leol (Cymru)

Dechreuodd yr eitem am 14.31

### 4 Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol: Gwella argaeledd rhandiroedd a gerddi cymunedol

Dechreuodd yr eitem am 15.04

**5 Datganiad gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi: Adnewyddu'r Agenda Cynhwysiant Ariannol**

Dechreuodd yr eitem am 15.42

**6 Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i gymeradwyo’r Bil Addysg Uwch (Cymru)**

Dechreuodd yr eitem am 16.19

**NDM5677 Huw Lewis (Merthyr Tudful a Rhymni)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.47:

Yn cymeradwyo’r Bil Addysg Uwch (Cymru).

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**7 Dadl: Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru 2013-14**

**Dechreuodd yr eitem am 16.32**

**NDM5672 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad blynyddol y Comisiynydd Pobl Hŷn ar gyfer 2013/14, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Ionawr 2015.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi'r cynnydd yng nghyfran gwaith achos y Comisiynydd Pobl Hŷn sy'n ymwneud â gofal iechyd.

**Derbyniwyd gwelliant 1 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Gwelliant 2 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at y ffaith bod yr Adroddiad Effaith a Chyrhaeddiad yn nodi bod tri awdurdod lleol yn methu â chyrraedd eu hamserlenni statudol ar gyfer darparu grantiau cyfleusterau i'r anabl.

**Derbyniwyd gwelliant 2 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Gwelliant 3 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu gwaith y Comisiynydd Pobl Hŷn mewn perthynas â datblygu'r Datganiad Hawliau Pobl Hŷn yng Nghymru.

**Derbyniwyd gwelliant 3 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM5672 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1.Yn nodi adroddiad blynyddol y Comisiynydd Pobl Hŷn ar gyfer 2013/14, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Ionawr 2015.

2.Yn nodi'r cynnydd yng nghyfran gwaith achos y Comisiynydd Pobl Hŷn sy'n ymwneud â gofal iechyd.

3.Yn gresynu at y ffaith bod yr Adroddiad Effaith a Chyrhaeddiad yn nodi bod tri awdurdod lleol yn methu â chyrraedd eu hamserlenni statudol ar gyfer darparu grantiau cyfleusterau i'r anabl.

4.Yn croesawu gwaith y Comisiynydd Pobl Hŷn mewn perthynas â datblygu'r Datganiad Hawliau Pobl Hŷn yng Nghymru.

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

**8 Dadl: Adroddiad Gweinidogion Cymru ar Gydraddoldeb 2014**

Dechreuodd yr eitem am 17.07

**NDM5674 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi Adroddiad Gweinidogion Cymru ar Gydraddoldeb 2014.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt 1 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried materion trawsryweddol ehangach o fewn dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus.

**Derbyniwyd gwelliant 1 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Gwelliant 2 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno mesurau pellach i fynd i'r afael â bwlio homoffobig mewn ysgolion.

**Derbyniwyd gwelliant 2 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Gwelliant 3 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod yr angen am weithio mewn partneriaeth yn well er mwyn mynd i'r afael â'r cynnydd yn y tensiynau rhwng cymunedau a gwella cydlyniant yn dilyn yr ymosodiadau brawychwyr ym Mharis.

**Derbyniwyd gwelliant 3 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Gwelliant 4 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu ffigurau a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ym mis Tachwedd 2014 yn dangos bod y bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar ei lefel isaf erioed, ond yn cydnabod bod angen gwneud mwy.

**Derbyniwyd gwelliant 4 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Gwelliant 5 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod dioddefwyr troseddau casineb yn gallu cael gafael ar wasanaethau cymorth cynhwysfawr yn rhwydd.

**Derbyniwyd gwelliant 5 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Gwelliant 6 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu mai ychydig o gynnydd sydd wedi'i wneud o ran cynyddu'r amrywiaeth o gyrff yng Nghymru sy'n gwneud penderfynaidau.

**Derbyniwyd gwelliant 6 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Gwelliant 7 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu bod rhaid i amcanion cydraddoldeb hefyd gadarnhau'r hawl i gael gwasanaethau cyhoeddus drwy gyfrwng ieithoedd swyddogol Cymru.

**Derbyniwyd gwelliant 7 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a gweddill y gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

**Gwelliant 8 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu na ellir sicrhau cydraddoldeb yng Nghymru oni bai bod cyfoeth wedi'i rannu'n deg ledled y DU.

**Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 8:**

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 38 | 0 | 13 | 51 |

**Derbyniwyd y gwelliant 8.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

NDM5674 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried materion trawsryweddol ehangach o fewn dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus.

2. Yn nodi Adroddiad Gweinidogion Cymru ar Gydraddoldeb 2014.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno mesurau pellach i fynd i'r afael â bwlio homoffobig mewn ysgolion.

4. Yn cydnabod yr angen am weithio mewn partneriaeth yn well er mwyn mynd i'r afael â'r cynnydd yn y tensiynau rhwng cymunedau a gwella cydlyniant yn dilyn yr ymosodiadau brawychwyr ym Mharis.

5. Yn croesawu ffigurau a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ym mis Tachwedd 2014 yn dangos bod y bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar ei lefel isaf erioed, ond yn cydnabod bod angen gwneud mwy.

6. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod dioddefwyr troseddau casineb yn gallu cael gafael ar wasanaethau cymorth cynhwysfawr yn rhwydd.

7. Yn gresynu mai ychydig o gynnydd sydd wedi'i wneud o ran cynyddu'r amrywiaeth o gyrff yng Nghymru sy'n gwneud penderfynaidau.

8. Yn credu bod rhaid i amcanion cydraddoldeb hefyd gadarnhau'r hawl i gael gwasanaethau cyhoeddus drwy gyfrwng ieithoedd swyddogol Cymru.

9. Yn credu na ellir sicrhau cydraddoldeb yng Nghymru oni bai bod cyfoeth wedi'i rannu'n deg ledled y DU.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 37 | 0 | 13 | 50 |

**Derbyniwyd cynnig wedi'i ddiwygio.**

**9 Cyfnod Pleidleisio**

Dechreuodd yr eitem am 17.45

Daeth y cyfarfod i ben am 17.46

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 28 Ionawr 2015**